

# Ystadegau AAA: Nifer y disgyblion, gwariant sydd wedi'i gyllidebu, a chyflawniad academaidd

Awst 2015

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi rhai ystadegau ar ddysgwyr yng Nghymru sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA): faint o ddysgwyr sydd a pha haen o gymorth a ddarperir, faint o arian sydd wedi'i gyllidebu i ddiwallu eu hanghenion, a pha mor dda y maent yn cyflawni o gymharu â'u cyfoedion.

Mae'r **data diweddaraf o'r cyfrifiad ysgolion ar AAA (StatsCymru)**, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015, yn dangos ym mlwyddyn ysgol 2014/15, bod **104,957 o ddisgyblion** ag AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, sydd gyfwerth â mwy nag un o bob pump plentyn ysgol. Dim ond lleiafrif ohonynt (**12 y cant**) oedd â **datganiad AAA** ac roedd mwyafrif helaeth (88 y cant) yn cael eu cynorthwyo drwy un o'r ddwy haen gyntaf o ymyrraeth, *Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy*.

Yn ôl yr **ystadegau blynnyddol diweddaraf ar wariant AAA sydd wedi'i gyllidebu**, a gyhoeddwyd ar 24 Mehefin 2015, mae **£356 miliwn** wedi'i gyllidebu yn 2015-16 i ddarparu ar gyfer AAA disgyblion.<sup>1</sup>

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n **ymgyngħori ar Fil**

<sup>1</sup> Noder y caiff gwariant sydd wedi'i gyllidebu ei adrodd ar sail blwyddyn ariannol yn hytrach na blwyddyn academaidd – mae'r ffigur diweddaraf ar gyfer 2015-16. Noder mai gwariant wedi'i gyllidebu yw hwn, ac nid yw o reidrwydd yr un peth â'r hyn a gafodd ei wario mewn gwirionedd.

**Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribynlys Addysg (Cymru)** tan 18 Rhagfyr 2015. Mae'n nodi'r **cynnig i ddiwygio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol** ar gyfer asesu a darparu ar gyfer AAA. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu sefydlu'r term **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** yn gyfreithiol i ddisodli AAA, dull sydd i ryw raddau eisoes wedi'i fabwysiadu mewn polisi ac arfer, os nad yw hynny'n wir mewn cyfraith.

Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd y Gwasanaeth Ymchwil Bapur Ymchwil, **Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru**, sy'n rhoi gwybodaeth gefndir am gyflwyniad arfaethedig deddfwriaeth, a ddisgwylwyd yn ystod haf 2015.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi **Bil Drafft** yn unig ar y cam hwn er mwyn cynnal **ymgyngħoriad pellach**. Felly, ni chaiff y deddfwriaeth ei chyflwyno hyd nes y **Pumed Cynulliad** (ar ôl etholiad mis Mai 2016).<sup>2</sup> Bydd hyn yn dibynnu ar ba blaïd (neu bleidiau) sydd mewn grym, er bod cytundeb trawsbleidiol ar yr angen i ddiwygio'r system gyfredol yn golygu bod rhyw fath o deddfwriaeth yn debygol.

Yn ogystal ag egluro prosesau a darpariaethau cyfredol a thaith yr adolygiad a'r cynnig i ddiwygio hyd yma, roedd y Papur Ymchwil yn cynnwys nifer o ystadegau.

Mae'r papur hwn yn **diweddar u'r ystadegau** ar nifer y dysgwyr ag AAA a lefelau'r gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar ôl rhyddhau'r data newydd. Mae hefyd yn ailgyflwyno'r ystadegau ar berfformiad academaidd cymharol disgyblion ag AAA.<sup>3</sup>

<sup>2</sup> Gweler erthygl blog y Gwasanaeth Ymchwil, **Y Gweinidog i esbonio'r oedi gyda'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol i Aelodau**, 19 Mehefin 2015, a **Datganiad Llafar y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 23 Mehefin 2015** i gael rhagor o wybodaeth a gwybodaeth gefndir am y penderfyniad.

<sup>3</sup> Nid yw'r data hyn wedi newid o'r hyn a gyhoeddwyd ym Mhapur Ymchwil mis Mehefin 2015, ond cânt eu cynnwys yma er hwylustod. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bwletin Ystadegol, **Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddiann disgyblion** bob mis Mawrth. Felly, bydd data ar berfformiad disgyblion ag AAA yn ystod haf 2015 ar gael ym mis Mawrth 2016.



# Nifer y disgylion ag AAA

Caiff safbwyt Cymru gyfan ynghylch nifer y disgylion ag AAA dros y chwe blynedd diwethaf ei gyflwyno yn **Nhabl 1**, ac mae dadansoddiad yn ôl awdurdod lleol ar gyfer 2014/15 yn **Nhabl 2**.

**Tabl 1: Nifer y disgylion ag AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru**

	Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Cyfanswm y disgylion ag AAA ond heb ddatganiad	Datganiadau	nifer Pob disgyl ag AAA
2014/15	59,245	33,275	92,520	12,437	104,957
2013/14	58,146	34,627	92,773	12,530	105,303
2012/13	56,000	35,053	91,053	12,738	103,791
2011/12	56,511	33,429	89,940	13,098	103,038
2010/11	54,468	32,055	86,523	13,407	99,930
2009/10	54,256	30,981	85,237	13,767	99,004

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru, **Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth** [fel ar 7 Awst 2015]

**Tabl 2: Nifer y disgylion ag AAA mewn ysgolion a gynhelir, yn ôl awdurdod lleol, 2014/15**

	Gweithredu gan yr Ysgol	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Cyfanswm y disgylion ag AAA ond heb ddatganiad	Datganiadau	nifer Pob disgyl ag AAA
Ynys Môn	1,026	765	1,791	278	2,069
Gwynedd	1,705	1,663	3,368	544	3,912
Conwy	1,592	1,613	3,205	318	3,523
Sir Ddinbych	1,979	1,806	3,785	396	4,181
Sir y Fflint	2,679	1,280	3,959	532	4,491
Wrecsam	1,984	1,044	3,028	553	3,581
Powys	2,071	1,447	3,518	445	3,963
Ceredigion	1,955	703	2,658	181	2,839
Sir Benfro	2,412	1,493	3,905	367	4,272
Sir Gaerfyrddin	4,180	2,397	6,577	1,006	7,583
Abertawe	5,206	2,271	7,477	1,424	8,901
Castell-nedd Port Talbot	2,983	1,760	4,743	747	5,490
Pen-y-bont ar Ogwr	3,254	1,318	4,572	317	4,889
Bro Morgannwg	2,701	1,048	3,749	428	4,177
Caerdydd	7,042	3,011	10,053	1,569	11,622
Rhondda Cynon Taf	6,373	2,167	8,540	715	9,255
Merthyr Tudful	1,319	996	2,315	186	2,501
Caerffili	2,822	2,155	4,977	686	5,663
Blaenau Gwent	988	862	1,850	328	2,178
Torfaen	1,507	1,206	2,713	234	2,947
Sir Fynwy	887	625	1,512	339	1,851
Casnewydd	2,580	1,645	4,225	844	5,069
<b>Cymru</b>	<b>59,245</b>	<b>33,275</b>	<b>92,520</b>	<b>12,437</b>	<b>104,957</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, StatsCymru, **Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth** [fel ar 7 Awst 2015]



Mae **Tablau 3 a 4** yn cyflwyno data mewn termau cymharol, h.y. **cyfran** y disgyblion ag AAA ac, o'r disgyblion hynny sydd ag AAA, y gyfran sydd â datganiad. Mae Tabl 3 yn dangos safbwyt Cymru gyfan dros y chwe blynedd diwethaf ac mae Tabl 4 yn rhoi dadansoddiad yn ôl awdurdod lleol ar gyfer 2014/15, sy'n galluogi dadansoddi eu defnydd cymharol o ddatganiadau.

Mae **polisi ac arfer** tuag at ddiwallu AAA, neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel y cyfeirir atynt yn gynyddol, wedi **esblygu** yn y blynnyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at **newid o ddibynnau ar ddatganiadau** a dychwelyd i ryw raddau at ystyried datganiadau fel y dewis olaf yn yr achosion mwyaf difrifol, sef bwriad gwreiddiol **Cod Ymddygiad AAA Cymru**, pan gafodd ei gyflwyno yn 2002. O ganlyniad i hyn, mae awdurdodau lleol yn defnyddio datganiadau i raddau gwahanol, ac adlewyrchir hyn yn yr ystadegau.

Wrth ddadansoddi cyfraddau gwahanol o ran defnyddio datganiadau, dylid nodi bod Estyn wedi nodi nad oes cydberthynas o reidrwydd rhwng canran y datganiadau ac ansawdd y gwasanaethau ADY a ddarperir.<sup>4</sup>

- Yn 2014/15, roedd **104,957 o ddisgyblion ag AAA** mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, sef **22.5 y cant** o'r holl ddisgyblion.
- Nid oedd gan y mwyafrif helaeth (88.2 y cant) o ddisgyblion ddatganiad.
- **Roedd gan 11.8 y cant o ddisgyblion ag AAA ddatganiad.** Mae cyfran y dysgwyr ag AAA sydd â datganiad mwy neu lai yr un peth â'r flwyddyn flaenorol, ond yn **ostyngiad o 13.9 y cant yn 2009/10.**

– Ma'r datganiadau a gyflwynir i ddysgwyr ag AAA yn **amrywio ymhliith awdurdodau lleol**. Y cyfartaledd ledled Cymru yn 2014/15 oedd 11.8 y cant, ac roedd gan **bump awdurdod** ddatganiadau ar gyfer **dros 15 y cant** o'u dysgwyr ag AAA. Dyma'r un pedwar awdurdod gyda'r gyfradd uchaf o ran cyflwyno datganiadau yn 2013/14 (Sir Fynwy, Casnewydd, Wrecsam, Abertawe a Blaenau Gwent), er bod gan y pump awdurod lai o ddatganiadau ar gyfer disgyblion ag AAA yn 2014/15 na 2013/14.

- Roedd gan **bump awdurdod lleol** ddatganiadau ar gyfer **llai nag 8 y cant** o'u disgyblion ag AAA. Roedd pedwar o'r rhain yr un peth â 2013/14 (Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf), gyda Thorfaen yn disodli Sir Benfro ymhliith yr awdurdodau gyda'r pum cyfradd isaf o ran cyflwyno datganiadau.
- Yn 2014/15, roedd gan Sir Fynwy y **gyfran isaf o ddysgwyr ag AAA** sydd wedi'u nodi, ond mae'r un awdurdod wedi cyflwyno'r **gyfran uchaf o ddatganiadau** ymhliith y garfan AAA hon. Mae'r un peth ag yn 2013/14.
- I'r gwrthwyneb, mae gan Ceredigion y **gyfran uchaf o ddysgwyr ag AAA** ond, o'r garfan AAA, mae ganddi'r **gyfran isaf ar y cyd gyda datganiadau**. Yn yr un modd, roedd gan Merthyr Tudful y cyffredinolrwydd uchaf ond un o AAA ond y gyfradd isaf ond dau ar gyfer cyflwyno datganiadau ymhliith y garfan AAA.

<sup>4</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddf Addyg (Cymru) 2014, **Ymateb i Ymgynghoriad EB06 Estyn (pdf 380KB)**, t4



**Tabl 3: Cyfrannau disgyblion ag AAA a chyfrannau disgyblion â datganiadau AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru**

	Cyfanswm y disgyblion	Cyfanswm y disgyblion ag AAA	Cyfanswm y disgyblion â datganiadau AAA	Canran cyfanswm y disgyblion sydd ag AAA	Canran cyfanswm y disgyblion sydd wedi cael datganiadau AAA	Canran y disgyblion ag AAA sydd wedi cael datganiadau
2014/15	465,704	104,957	12,437	22.5%	2.7%	11.8%
2013/14	465,081	105,303	12,530	22.6%	2.7%	11.9%
2012/13	464,868	103,791	12,738	22.3%	2.7%	12.3%
2011/12	465,943	103,038	13,098	22.1%	2.8%	12.7%
2010/11	466,172	99,930	13,407	21.4%	2.9%	13.4%
2009/10	467,141	99,004	13,767	21.2%	3.0%	13.9%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o ffigurau Llywodraeth Cymru, StatsCymru, **Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth**, a Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: **Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion, 2015, 23 Gorffennaf 2015**, Tabl 3 [fel ar 7 Awst 2015]

**Tabl 4: Cyfrannau disgyblion ag AAA a chyfrannau disgyblion â datganiadau AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, 2014/15**

	Cyfanswm y disgyblion	Cyfanswm y disgyblion ag AAA	Cyfanswm y disgyblion â datganiadau AAA	Canran cyfanswm y disgyblion sydd ag AAA	Canran cyfanswm y disgyblion sydd wedi cael datganiadau AAA	Canran y disgyblion ag AAA sydd wedi cael datganiadau
Ynys Môn	9,611	2,069	278	21.5%	2.9%	13.4%
Gwynedd	17,043	3,912	544	23.0%	3.2%	13.9%
Conwy	15,934	3,523	318	22.1%	2.0%	9.0%
Sir Ddinbych	15,758	4,181	396	26.5%	2.5%	9.5%
Sir y Fflint	23,726	4,491	532	18.9%	2.2%	11.8%
Wrecsam	19,534	3,581	553	18.3%	2.8%	15.4%
Powys	18,273	3,963	445	21.7%	2.4%	11.2%
Ceredigion	9,604	2,839	181	29.6%	1.9%	6.4%
Sir Benfro	17,951	4,272	367	23.8%	2.0%	8.6%
Sir Gaerfyrddin	27,055	7,583	1,006	28.0%	3.7%	13.3%
Abertawe	35,489	8,901	1,424	25.1%	4.0%	16.0%
Castell-nedd Port Talbot	20,670	5,490	747	26.6%	3.6%	13.6%
Pen-y-bont ar Ogwr	22,830	4,889	317	21.4%	1.4%	6.5%
Bro Morgannwg	22,094	4,177	428	18.9%	1.9%	10.2%
Caerdydd	53,007	11,622	1,569	21.9%	3.0%	13.5%
Rhondda Cynon Taf	38,805	9,255	715	23.9%	1.8%	7.7%
Merthyr Tudful	8,695	2,501	186	28.8%	2.1%	7.4%
Caerffili	28,629	5,663	686	19.8%	2.4%	12.1%
Blaenau Gwent	9,404	2,178	328	23.2%	3.5%	15.1%
Torfaen	15,138	2,947	234	19.5%	1.5%	7.9%
Sir Fynwy	11,543	1,851	339	16.0%	2.9%	18.3%
Casnewydd	24,911	5,069	844	20.3%	3.4%	16.7%
<b>Cymru</b>	<b>465,704</b>	<b>104,957</b>	<b>12,437</b>	<b>22.5%</b>	<b>2.7%</b>	<b>11.8%</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o ffigurau Llywodraeth Cymru, StatsCymru, **Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth**, a Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: **Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion, 2015, 23 Gorffennaf 2015**, Tabl 5 [fel ar 7 Awst 2015]



## Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar AAA

Mae **Tabl 5** yn dangos cyfanswm yr arian sydd wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth AAA, y swm fesul disgybl (pob disgybl, nid dim ond disgyblion ag AAA), a'r gyfradd ddyrannu, h.y. faint o gyllidebau AAA a drosglwyddwyd yn uniongyrchol i ysgolion. Mae'r data yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd.

- Mae **cyfanswm y gwariant sydd wedi'i gyllidebu** ar AAA yn 2015-16 ledled Cymru yn **£356.306 miliwn**. Mae'n ostyngiad o 0.2 y cant ers 2014-15 ac yn ostyngiad o 0.8 y cant ers 2013-14 pan oedd y cyllid ar ei uchaf. Fodd bynnag, mae'r gwariant sydd wedi'i gyllidebu wedi codi 4.3 y cant ers 2010-11.
- Cyllidebir **£789** ar gyfer AAA yn 2015-16 **fesul disgybl** (pob disgybl, nid y garfan AAA yn unig). Mae wedi gostwng o £792 yn 2014-15 a £796 yn 2013-14 ond wedi cynyddu o £754 yn 2010-11.
- Mae'r **gyfradd ddyrannu** ar gyfer gwariant AAA ledled Cymru yn 2015-16 yn **72 y cant**. Mae hyn yn golygu y caiff £72 o bob £100 sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer AAA ei drosglwyddo gan awdurdodau lleol i'r ysgolion eu hunain. Mae'r gyfradd ddyrannu wedi **cynyddu** ym mhob un o'r bum mlynedd ddiwethaf, o 55 y cant yn 2010-11..

**Tabl 5: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig gan awdurdodau lleol yng Nghymru**

	£ Miliwn Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA	£ Gwariant gros wedi'i gyllidebu fesul disgybl ar ddarpariaeth AAA	% a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion unigol
2015-16	<b>356.306</b>	<b>789</b>	<b>72%</b>
2014-15	357.099	792	70%
2013-14	(d) 359.217	796	69%
2012-13	346.862	769	67%
2011-12	(d) 347.100	770	60%
2010-11	341.755	754	55%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiadau Ystadegol Cyntaf: **Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig**, (rhifynnau sawl blwyddyn)

Nodiadau:

- Mae'n cynnwys dyraniadau tybiannol i ysgolion ar gyfer darpariaeth AAA fel rhan o fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthu arian i ysgolion. Cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint o'i chyllideb ddirprwyedig y bydd yn ei wario ar AAA, a gall y gwariant gwirioneddol fod yn wahanol i'r dyraniadau tybiannol hyn.
- Mae gwariant £ fesul disgybl yn seiliedig ar y garfan gyfan o ddisgyblion ar y gofrestr yn hytrach na dim ond disgyblion ag AAA.
- Dyma ffigurau diwygiedig y gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2013-14 a 2011-12, a gyhoeddwyd fel rhan o ystadegau'r flwyddyn ganlynol. Ni chyhoeddwyd ffigurau diwygiedig ar gyfer y gyfradd £ fesul disgybl na'r gyfradd ddyrannu, ac felly mae angen gofal wrth gymharu'r ddua faes hwn â'r cyllidebau gros ar gyfer y blynyddoedd hyn.



Mae **Tabl 6** yn rhoi dadansoddiad o'r **data yn ôl awdurdod lleol** ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, 2015-16.

Mae **Tabl 7** yn dangos faint y mae pob awdurdod lleol wedi'i gyllidebu ar gyfer AAA ym mhob un o'r chwe blynedd ariannol diwethaf.

- **Ynys Môn** (£1,059) a **Blaenau Gwent** (£1,019) a gyllidebodd y **mwyaf** ar gyfer AAA fesul disgybl (pob disgybl, nid y garfan AAA yn unig) yn 2015-16. **Torfaen** (£579), **Bro Morgannwg** (£595) a **Rhondda Cynon Taf** (£604) a gyllidebodd **leiaf** fesul disgybl.
- Mae hyn yr un peth â'r llynedd. Fodd bynnag, gan mai dyma faint a gaiff ei gylliebu fesul un o gyfanswm y boblogaeth o ddisgyblion yn hytrach na fesul un o gyfanswm y disgyblion ag AAA, **nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr awdurdodau hyn yn gwario swm cymharol fwy neu lai nag eraill ar ddarpariaeth AAA**. Er mwyn archwilio hyn yn fanylach, byddai angen croesgyfeirio'r gwariant fesul disgybl â'r cyfrannau o ddisgyblion ag AAA a ddangosir yn Nhabl 3.
- Dyrannodd **Sir Ddinbych** (90 y cant) y gyfran **uchaf** o'i chyllideb AAA i ysgolion yn 2015-16. Roedd gan **Gaerffili** (52 y cant) a **Sir y Fflint** (56 y cant) y cyfraddau dyrannu **isaf**. Mae hyn yr un peth â'r llynedd.

**Tabl 6: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig, 2015-16**

	£ Miliwn Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA	£ Gwariant gros wedi'i gyllidebu fesul disgybl ar ddarpariaeth AAA	% a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion unigol
Ynys Môn	9.811	1,059	65%
Gwynedd	13.494	820	75%
Conwy	12.324	798	82%
Sir Ddinbych	11.625	763	90%
Sir y Fflint	19.043	833	56%
Wrecsam	15.563	829	79%
Powys	16.279	904	73%
Ceredigion	7.834	832	68%
Sir Benfro	14.644	840	78%
Sir Gaerfyrddin	21.275	791	77%
Abertawe	31.828	936	67%
Castell-nedd Port Talbot	14.450	739	77%
Pen-y-bont ar Ogwr	18.722	821	69%
Bro Morgannwg	12.775	595	82%
Caerdydd	44.734	881	81%
Rhondda Cynon Taf	23.449	604	63%
Merthyr Tudful	7.273	878	73%
Caerffili	19.029	688	52%
Blaenau Gwent	8.998	1,019	71%
Torfaen	8.345	579	75%
Sir Fynwy	8.439	745	69%
Casnewydd	16.372	685	65%
<b>Cymru</b>	<b>356.306</b>	<b>789</b>	<b>72%</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: **Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig 2015-16**, 24 Mehefin 2015

Nodiadau:

- Mae'n cynnwys dyraniadau tybiannol i ysgolion ar gyfer darpariaeth AAA fel rhan o fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthu arian i ysgolion. Cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint o'i chyllideb ddirprwyedig y bydd yn ei wario ar AAA, a gall y gwariant gwirioneddol fod yn wahanol i'r dyraniadau tybiannol hyn.
- Mae gwariant £ fesul disgybl yn seiliedig ar y garfan gyfan o ddisgyblion ar y gofrestr yn hytrach na dim ond disgyblion ag AAA.



**Tabl 7: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig**

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	£ Miliwn 2015-16
Ynys Môn	9.259	9.500	8.675	(d) 9.775	10.069	9.811
Gwynedd	13.197	13.359	14.032	13.938	13.776	13.494
Conwy	12.459	13.536	13.200	12.838	12.484	12.324
Sir Ddinbych	10.057	10.310	10.025	11.843	12.128	11.625
Sir y Fflint	19.785	20.666	20.000	21.030	20.419	19.043
Wrecsam	15.002	14.721	14.601	15.467	15.462	15.563
Powys	15.647	16.735	16.410	17.167	15.468	16.279
Ceredigion	7.877	8.511	8.962	8.614	8.520	7.834
Sir Benfro	15.269	15.893	15.541	14.576	14.348	14.644
Sir Gaerfyrddin	20.778	21.424	21.090	22.179	21.720	21.275
Abertawe	30.658	29.981	29.577	30.448	31.322	31.828
Castell-nedd Port Talbot	16.342	15.127	15.305	14.562	14.603	14.450
Pen-y-bont ar Ogwr	16.753	16.516	16.542	18.787	18.626	18.722
Bro Morgannwg	11.785	11.612	11.662	12.425	12.599	12.775
Caerdydd	35.348	37.269	39.444	41.903	42.343	44.734
Rhondda Cynon Taf	23.522	24.408	27.730	24.250	24.203	23.449
Merthyr Tudful	7.357	(d) 7.401	7.455	7.525	7.261	7.273
Caerffili	18.808	18.364	18.311	18.949	19.370	19.029
Blaenau Gwent	8.795	8.776	9.196	9.541	9.171	8.998
Torfaen	8.650	8.428	8.194	8.118	7.908	8.345
Sir Fynwy	7.954	8.584	8.601	8.593	8.327	8.439
Casnewydd	16.453	15.979	16.308	16.688	16.973	16.372
<b>Cymru</b>	<b>341.755</b>	<b>(d) 347.1</b>	<b>346.862</b>	<b>(d) 359.217</b>	<b>357.099</b>	<b>356.306</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiadau Ystadegol Cyntaf: **Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig** (rhifynnau sawl blwyddyn)

Nodiadau:

a) Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dyraniadau tybiannol i ysgolion ar gyfer darpariaeth AAA fel rhan o fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthu arian i ysgolion. Cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint o'i chyllideb ddirprwyedig y bydd yn ei wario ar AAA, a gall y gwariant gwirioneddol fod yn wahanol i'r dyraniadau tybiannol hyn.

(d) Dyma ffigurau diwygiedig y gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2013-14 a 2011-12, a gyhoeddwyd fel rhan o ystadegau'r flwyddyn ganlynol.

Pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn 2014 ar **Bapur Gwyn yn nodi ei chynlluniau ar gyfer deddfwriaeth**, roedd cyllid yn fater amlwg yn y **materion o ran adnoddau a chapasiti** a fynegwyd gan randdeiliaid. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dweud y byddai **adnoddau cyfredol o fewn cyllideb ei adran yn talu** am unrhyw gostau ychwanegol ac felly, gall olygu bod angen **aiflaenoriaethu** cyllidebau unwaith y caiff costau eu mesur.<sup>5</sup> Comisiynodd Llywodraeth Cymru **Deloitte** i gynnal astudiaeth o **gostau'r system gyfredol**, ac mae manylion am yr astudiaeth yn yr **Asesiad Effaith Rheoleiddiol (pdf 1.22MB)** sy'n cyd-fynd â'r Bil Drafft.

---

<sup>5</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Plant, Polb Ifanc ac Addysg, **CYPE(4)-25-14-Papur 5: Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 (PDF,499KB)**, 23 Hydref 2014



## Cyflawniad disgyblion ag AAA

Mae Tablau 8-10 yn darparu rhywfaint o wybodaeth am **gyflawniad dysgwyr yng Nghymru ag AAA**.

Mae **Tablau 8 a 9** yn cyflwyno ystadegau ynglŷn â chanran yr holl ddisgyblion ag AAA sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yng **Nghyfnodau Allweddol 2 a 3** yn y drefn honno, yn ogystal â dadansoddi'r rhain ar gyfer pob un o'r tair lefel o ymyriad. Mae **Tabl 10** yn cyflwyno ystadegau ar gyflawniad yng **Nghyfnod Allweddol 4**.

Rhoddir ystadegau ar gyfer pob disgybl hefyd, gan ei gwneud yn bosibl i rai **cymariaethau gael eu gwneud rhwng cyflawniad disgyblion ag AAA â'u cyfoedion**. Mae'r data'n cwmpasu'r pum mlynedd diwethaf. Caiff y data ar gyfer 2015 eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016.

- Yn 2014, yng **Nghyfnod Allweddol 2, cyflawnodd 57.7 y cant o'r holl ddisgyblion ag AAA y Dangosydd Pwnc Craidd** (DPC), sef y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd. Mae hyn yn **cymharu ag 86.2 y cant o'r holl ddisgyblion**, sy'n golygu bod bwlch o 28.5 pwynt canrannol. Mae'r **bwlch hwn wedi lleihau** ers 2010, pan gafwyd bwlch o 39.8 pwynt canrannol.
- Yng **Nghyfnod Allweddol 3, cyflawnodd 49.2 y cant o'r holl ddisgyblion ag AAA y DPC** yn 2014, o gymharu ag **81.3 y cant o'r holl ddisgyblion**. Mae'r **bwlch hwn hefyd wedi lleihau** o 40.9 pwynt canrannol yn 2010 i 32.1 pwynt canrannol yn 2014.
- Yng **Nghyfnod Allweddol 4**, yn 2014, **cyflawnodd 19.7 y cant o'r holl ddisgyblion ag AAA drothwy cynwysedig Lefel 2** (5 TGAU neu fwy gradd A\*-C neu gyfwerth). Mae hyn yn cymharu â **56.2 y cant o'r holl ddisgyblion**. Mae'r bwlch o 36.5 pwynt canrannol yn debyg yn fras i'r bwlch a gafwyd yn 2010, sef 36.8 pwynt

canrannol.

– Fel y byddid yn ei ddisgwyl, **mae llai o ddisgyblion sydd wedi cael datganiadau yn cyflawni** naill ai'r DPC yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, neu drothwy cynwysedig Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4, na dysgwyr eraill ag AAA sy'n cael cymorth drwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol*. Yn yr un modd, mae llai o ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt drwy *Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy* yn cyflawni'r mesurau hyn na'r rhai sy'n cael cymorth o dan *Gweithredu gan yr Ysgol* yn unig. **Cyflawnodd 9.3 y cant o ddisgyblion sydd wedi cael datganiadau 5 TGAU neu fwy ar radd A\*-C** (neu gyfwerth), o gymharu â 17.3 y cant yn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a 24.1 y cant yn Gweithredu gan yr Ysgol.

– Ym mhob un o Gyfnodau Allweddol 2, 3 a 4, cyflawnodd y **garfan o ddisgyblion ag AAA** sy'n destun unrhyw un o'r tair lefel o ymyriad yn well **yn 2014 nag yn 2010** (gan ddefnyddio'r ddau fesur hyn)

**Tabl 8: Cyflawniad Cyfnod Allweddol 2 yn ôl lefel y ddarpariaeth AAA (canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwylledig (Lefel 4) mewn asesiadau athrawon)**

	Darpariaeth AAA	Carfan	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	CSI (a)	Cymraeg	Iaith Gyntaf
			%	%	%	%	Carfan	%
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2010	Disgyblion â Datganiad	9,023	45.6	51.5	58.7	38.5	1,867	48.6
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,161	17.8	22.2	24.5	14.9	177	26.0
	Gweithredu gan yr Ysgol	3,022	38.4	47.2	55.1	32.3	623	36.0
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>4,840</b>	<b>56.8</b>	<b>61.1</b>	<b>69.2</b>	<b>48.0</b>	<b>1,067</b>	<b>59.8</b>
		<b>33,449</b>	<b>82.1</b>	<b>83.4</b>	<b>86.6</b>	<b>78.3</b>	<b>6,542</b>	<b>81.2</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2011	Disgyblion â Datganiad	8,845	49.2	55.4	60.6	42.4	1,762	50.8
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,066	20.0	22.3	24.0	16.4	157	18.5
	Gweithredu gan yr Ysgol	3,006	42.6	51.6	57.2	36.8	603	40.1
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>4,773</b>	<b>59.9</b>	<b>65.2</b>	<b>70.9</b>	<b>51.7</b>	<b>1,002</b>	<b>62.3</b>
		<b>32,388</b>	<b>83.5</b>	<b>85.0</b>	<b>87.2</b>	<b>80.1</b>	<b>6,349</b>	<b>82.1</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2012	Disgyblion â Datganiad	8,997	54.5	60.6	65.0	49.0	1,855	55.6
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	992	21.0	24.8	25.3	17.4	118	25.4
	Gweithredu gan yr Ysgol	3,231	46.9	54.9	59.6	42.0	696	47.8
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>4,774</b>	<b>66.5</b>	<b>72.0</b>	<b>76.9</b>	<b>60.3</b>	<b>1,041</b>	<b>64.2</b>
		<b>31,807</b>	<b>85.3</b>	<b>86.9</b>	<b>88.7</b>	<b>82.7</b>	<b>6,451</b>	<b>84.1</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2013	Disgyblion â Datganiad	8,787	59.7	62.3	67.8	53.1	1,730	59.6
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	950	21.1	22.1	24.1	17.3	108	23.1
	Gweithredu gan yr Ysgol	3,260	53.0	57.6	63.6	46.8	686	45.3
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>4,577</b>	<b>72.5</b>	<b>74.0</b>	<b>79.8</b>	<b>65.1</b>	<b>936</b>	<b>74.3</b>
		<b>30,896</b>	<b>87.2</b>	<b>87.6</b>	<b>89.8</b>	<b>84.4</b>	<b>6,188</b>	<b>86.7</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2014	Disgyblion â Datganiad	8,933	63.5	65.8	69.7	57.7	1,816	63.9
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	986	22.9	24.4	24.1	19.7	131	27.5
	Gweithredu gan yr Ysgol	3,181	55.5	59.6	63.9	49.5	672	52.5
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>4,766</b>	<b>77.2</b>	<b>78.5</b>	<b>83.0</b>	<b>71.0</b>	<b>1,013</b>	<b>76.1</b>
		<b>31,670</b>	<b>88.5</b>	<b>89.0</b>	<b>90.5</b>	<b>86.2</b>	<b>6,400</b>	<b>88.2</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: **Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion**, 31 Mawrth 2015, Tabl 14

Nodiadau:

- (a) Y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yw canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylledig neu'n uwch mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
- (b) 'Pob disgybl' yw cyflawniad pob disgybl mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion y cafodd eu data casglu a chyrhaeddiad ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol eu paru'n llwyddiannus o fewn Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.



**Tabl 9: Cyflawniad Cyfnod Allweddol 3 yn ôl lefel y ddarpariaeth AAA (canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwylidig (Lefel 5) mewn asesiadau athrawon)**

	Darpariaeth AAA	Carfan	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth	CSI (a)	Cymraeg	Iaith Gyntaf
			%	%	%	%	Carfan	%
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2010	Disgyblion â Datganiad	8,104	32.7	40.3	43.7	23.0	1,085	36.8
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,451	14.0	18.6	19.7	8.8	133	14.3
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,269	29.6	38.5	41.8	20.8	306	36.9
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>34,419</b>	<b>72.7</b>	<b>75.6</b>	<b>77.3</b>	<b>63.9</b>	<b>5,546</b>	<b>76.8</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2011	Disgyblion â Datganiad	8,319	37.2	42.8	48.2	26.6	1,147	44.4
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,482	17.1	20.8	24.1	11.9	124	28.2
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,572	33.8	41.2	45.3	23.7	329	32.5
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>35,724</b>	<b>76.1</b>	<b>78.0</b>	<b>80.4</b>	<b>68.1</b>	<b>5,858</b>	<b>81.4</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2012	Disgyblion â Datganiad	8,192	43.8	48.5	53.9	33.3	1,150	49.9
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,311	18.0	21.4	24.9	13.3	111	25.2
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,599	41.1	48.2	51.4	31.3	365	43.6
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>34,289</b>	<b>79.5</b>	<b>81.3</b>	<b>83.9</b>	<b>72.8</b>	<b>5,783</b>	<b>84.2</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2013	Disgyblion â Datganiad	8,230	50.6	53.9	61.3	39.7	1,120	57.9
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,287	20.4	25.1	29.7	16.2	119	31.1
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,526	46.1	51.4	57.6	36.2	321	53.9
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>33,193</b>	<b>83.0</b>	<b>84.0</b>	<b>87.2</b>	<b>77.2</b>	<b>5,667</b>	<b>87.6</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>								
2014	Disgyblion â Datganiad	8,518	59.2	61.8	71.2	49.2	1,294	68.4
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,236	24.0	27.6	32.1	19.2	101	27.7
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,523	54.3	58.3	68.7	44.7	328	61.9
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>32,162</b>	<b>86.1</b>	<b>86.7</b>	<b>90.6</b>	<b>81.3</b>	<b>5,537</b>	<b>90.1</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: **Cyflawniad academiaidd yn ôl nodweddion disgyblion**, 31 Mawrth 2015, Tabl 15

Nodiadau:

- (a) Y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yw canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylidig neu'n uwch mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
- (b) 'Pob disgybl' yw cyflawniad pob disgybl mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion y cafodd eu data casglu a chyrhaeddiad ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol eu paru'n llwyddiannus o fewn Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.

**Tabl 10: Cyflawniad Cyfnod Allweddol 4 yn ôl lefel y ddarpariaeth AAA (canran y disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd)**

	Darpariaeth AAA	Carfan	Canran y disgyblion sy'n cyflawni:			
			Trothwy lefel 1	Trothwy lefel 2	Trothwy cynwysedig	lefel 2 (a)
			(a)	(a)	lefel 2 (a)	
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>						
2010	Disgyblion â Datganiad	6,643	71.2	25.1	12.9	12.5
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,186	44.8	13.6	7.4	7.7
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,034	67.4	23.7	11.7	11.5
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>3,423</b>	<b>82.6</b>	<b>29.8</b>	<b>15.5</b>	<b>14.7</b>
		<b>35,254</b>	<b>91.7</b>	<b>64.6</b>	<b>49.7</b>	<b>48.4</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>						
2011	Disgyblion â Datganiad	6,952	75.4	33.2	15.5	14.9
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,221	52.9	19.7	8.7	8.5
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,040	68.1	28.4	14.3	13.9
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>3,691</b>	<b>86.9</b>	<b>40.3</b>	<b>18.4</b>	<b>17.6</b>
		<b>34,345</b>	<b>92.4</b>	<b>68.4</b>	<b>50.5</b>	<b>49.0</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>						
2012	Disgyblion â Datganiad	7,059	79.4	41.6	16.5	15.5
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,173	55.8	24.2	8.4	8.4
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,108	74.3	37.3	13.9	13.1
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>3,778</b>	<b>89.5</b>	<b>49.4</b>	<b>20.5</b>	<b>19.0</b>
		<b>33,770</b>	<b>93.6</b>	<b>73.8</b>	<b>51.5</b>	<b>49.7</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>						
2013	Disgyblion â Datganiad	7,583	82.7	50.6	16.8	15.3
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,239	60.5	29.0	10.6	10.2
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,461	77.9	46.0	15.5	14.1
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>3,883</b>	<b>92.8</b>	<b>60.4</b>	<b>19.6</b>	<b>17.8</b>
		<b>35,154</b>	<b>94.7</b>	<b>78.9</b>	<b>53.2</b>	<b>50.1</b>
<b>Cyfanswm y ddisgyblion ar y gofrestr AAA</b>						
2014	Disgyblion â Datganiad	7,576	86.4	60.4	19.7	18.4
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	1,118	61.4	35.2	9.3	8.6
	Gweithredu gan yr Ysgol	2,450	83.3	55.8	17.3	15.8
	<b>Pob disgybl (b)</b>	<b>4,008</b>	<b>95.3</b>	<b>70.3</b>	<b>24.1</b>	<b>22.8</b>
		<b>33,708</b>	<b>95.8</b>	<b>83.9</b>	<b>56.2</b>	<b>53.9</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: **Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion**, 31 Mawrth 2015, Tabl 16

Nodiadau:

- (a) Trothwyon lefel yw cyfanswm neu 'faint' cymwysterau ar lefel benodol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Pennwyd tri throthwy: Lefel 1 - cyfanswm o gymwysterau ar Lefel 1 sy'n gyfwerth â chyfanswm o 5 TGAU ar radd D-G; Lefel 2 - cyfanswm o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gyfwerth â chyfanswm o 5 TGAU ar radd A\*-C; Lefel 2 cynwysedig – cyfanswm o gymwysterau ar Lefel 2 sy'n gyfwerth â chyfanswm o 5 TGAU ar radd A\*-C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf a Mathemateg.
- (b) Y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yw canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylledig neu'n uwch mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
- (c) 'Pob disgybl' yw cyflawniad pob disgybl mewn ysgolion cynradd a gynhelir, ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion y cafodd eu data casglu a chyrhaeddiad ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion neu Addysg Heblaw yn yr Ysgol eu paru'n llwyddiannus o fewn Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.



## Rhagor o wybodaeth

Mae'r lincs isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y ffynonellau data a ddefnyddir yn y papur briffio hwn, a rhagor o wybodaeth am AAA yng Nghymru.

- Llywodraeth Cymru, Datganiadau Ystadegol  
Cyntaf: **Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion**
- Llywodraeth Cymru, StatsCymru, **Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth**
- Llywodraeth Cymru, Datganiadau Ystadegol  
Cyntaf: **Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig**
- Llywodraeth Cymru, Bwletinau Ystadegol:  
**Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion**
- Y Gwasanaeth Ymchwil, **Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru**, Mehefin 2015
- Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad: Y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

I gael rhagor o wybodaeth ac ystadegau am Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), cysylltwch â **Michael Dauncey** ([Michael.Dauncey@cynulliad.cymru](mailto:Michael.Dauncey@cynulliad.cymru)), y **Gwasanaeth Ymchwil**.

Mae ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar gael ar wefan y Cynulliad: [www.cynulliad.cymru/cy/home/research/Pages/research.aspx](http://www.cynulliad.cymru/cy/home/research/Pages/research.aspx)

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter:  
[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost i [Research.Service@cynulliad.cymru](mailto:Research.Service@cynulliad.cymru)

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 15/1930**